

*Y cysodydd Eifftaidd oll-bwysig wrth ei waith*

# Ar drywydd y llythyren 'Y' yn yr Aifft

**T. ELWYN GRIFFITHS yn cofio Seren y Dwyrain**

HYD y gwyddys, "Seren y Dwyrain" yw'r unig gylchgrawn Cymraeg i'w gyhoeddi erioed yn y Dwyrain Canol, a hynny yn ystod y cyfnod 1943-5. Cylchgrawn ar gyfer y Lluoedd Arfog ydoedd, wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu ganddyn nhw eu hunain.

Ei brif bwrpas oedd gweithredu fel offeryn newyddion am Gymru, y famwlad, ac am y Cymdeithasau Cymreig a fodolai yr adeg honno ymhlith y Cymry ieuainc a wasanaethai yn y Lluoedd Arfog yn yr Aifft, Israel, Syria a gwledydd eraill y Dwyrain Canol.

Yn ogystal â hyn, fodd bynnag, cynhwysid ynddo gyfraniadau llenyddol gan y bechgyn (a'r merched) eu hunain – ambell un ohonynt yn berl – gan lenorion a ddaeth yn amlwg ym mywyd Cymru yn ddiweddarach, megis Hydwedd Boyer, G.G. Evans, Frank Grundy a J. Eurfyl Jones.

Ym mis Medi 1943 yr ymddangosodd rhifyn cyntaf y "Seren" ac hawdd yw deall y wefr annisgrifiadwy a brofwyd gennyf fel Golygydd wrth weld y copi cyntaf yn saethu allan o'r peiriant argraffu a sylweddoli i ni gyrraedd carreg filltir nodedig yn hanes Cymry'r Lluoedd Arfog yn yr Ail Ryfel Byd. Erbyn y nos Sul ganlynol roedd y papur yn nwylo aelodau Cymdeithas Gymraeg Cairo, cyhoeddwyr "Seren y Dwyrain".

* * *

Y GWIR amdani yw i ni gael anhawster mwy na'r disgwyl i ddod o hyd i argraffwyr yn y ddinas a fyddai'n fodlon ymgymryd a'r gwaith gan ei fod mewn iaith mor ddieithr iddynt. Bum yn aflwyddiannus droeon ac anobeithiwn ar brydiau.

Eithr wele Ragluniaeth o'r diwedd yn dirion a deuthum o hyd i siop ac argraffdy bychan yn ymyl "Gerddi Esbeciah", Cairo – lle a gadwyd gan ŵr ifanc o'r enw Anis Fadil, gŵr o waedoliaeth Libanaidd ac yn hanu o ardal Beirut.

Ni ellir edrych ar Fadil fel crefftwr medrus nac yn ŵr busnes craff yn ôl safonau'r Gorllewin, ond cafwyd pob hwylustod ganddo i sicrhau llwyddiant y "Seren". Argraffdy bychan iawn oedd eiddo Fadil. Cyflogid pedwar o ddynion yno, pob un ohonynt yn Eifftiwr, ac o'r rhain, un yn unig a allai gysodi, a hynny â llaw, yn ôl y dull hen ffasiwn. Hawdd, felly, yw dychmygu beth a ddigwyddai pan ai'r creadur pwysig hwnnw yn sâl.

Y nifer o'r rhifyn cyntaf oll a argraffwyd oedd 400, ond datblygodd hwn gydag amser i ymron 2,000. Felly hefyd gyda'r nifer tudalennau – cynyddu o 4 tudalen i 16 tudalen, arwydd arall o'i boblogrwydd. Fel y gellir disgwyl, cafwyd cryn drafferth gan yr argraffwyr oherwydd rhaid oedd i'r cysodwr Eifftaidd gysodi'r papur mewn iaith cwbl ddieithr ac heb fod ganddo y wybodaeth leiaf ohoni.

Dichon mai'r drafferth fwyaf a gafwyd oedd dod o hyd i ddigon o'r llythyren 'y' ac achwynent droeon fod gormod o'r llythyren hon yn y Gymraeg. Oherwydd y prinder hwn, yr oedd yn rhaid i'r argraffwyr gysodi rhan yn unig o'r "Seren" ar y tro er mwyn cael digon o'r 'y'; oni chamsyniaf, credaf i mi orfod eu cywiro tua chwech o weithiau i gyd yn y rhifyn cyntaf cyn eu cael i fodlonrwydd.

Wel beth am ddosbarthu'r cylchgrawn? O ble y cafwyd hyd i'r Cymry a ddymunai ei dderbyn a hwythau ar wasgar mewn cannoedd o unedau milwrol ar hyd a lled y Dwyrain Canol?

Gweithwyd yn bennaf trwy'r Cymdeithasau Cymreig a fodolai yn y rhan yma o'r byd ac iddynt hwy y dosbarthwyd y mwyafrif o'r copïau ar y cychwyn. Ychwanegwyd at y ceisiadau am y "Seren" gan unigolion a ddymunai ei dderbyn – hwythau wedi clywed amdano trwy gyfeillion neu yn bur aml, oherwydd i'w rhieni ei archebu ar eu rhan oherwydd yr adroddiadau am y "Seren" a ymddangosai yn rheolaidd yn y wasg leol a chenedlaethol yng Nghymru.

* * *

HOLWYD fi droeon sut y meddyliwyd am enw mor briodol i'r cylchgrawn. Awgrymwyd yn y Pwyllgor Sefydlu nifer o enwau lled addas, gan gynnwys "Y Gadwyn" a'r "Bont", ond cyn gynted ag y cynigiwyd yr enw "Seren y Dwyrain" gan y gŵr hynaws hwnnw, Glyn Davies o Genarth, Sir Aberteifi, ni bu dadlau pellach.

Fy mraint fawr i oedd cael bod ynghlwm â'r gwaith o sefydlu a llywio y "Seren" yn ystod cyfnod dechreuol ei fodolaeth ac er prinned y copïau o'r ôl-rifynnau sy' ar gael erbyn hyn, braf yw meddwl bod yr holl rifynnau yn gyflawn mewn o leiaf dri man – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Llyfrgell Brydeinig a Choleg y Brifysgol, Bangor.

Yno, yn y Coleg ym Mangor, y gwelodd y Brenin Sior VI y cylchgrawn pan ar ymweliad a Gogledd Cymru ar ôl y rhyfel. Pan y'i dangoswyd o gwmpas llyfrgell y Coleg gan y gŵr a lenwai'r swydd o Ben-lyfrgellydd yr adeg honno – Dr. Tom Richards – yr unig ddau beth, mae'n debyg, y gwnaeth y Brenin sylw ohonynt oedd pentwr o rifynnau o "Seren y Dwyrain" a chasgliad o lythyrau – tua 350 ohonynt – a dderbyniwyd gan y Parch Trebor Lloyd Evans oddi wrth fechgyn Capel Soar, Penygroes, Arfon, a wasanaethai yn y Lluoedd Arfog yn ystod y rhyfel.

Honnir i'r Brenin, o'r herwydd, fod ddeng munud yn hwyr yn cyrraedd ei gyhoeddiad nesaf!